Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe

ENNILL LLWYR YW ENNILL IAITH

17/12/20

Annwyl Riant / Warcheidwad,

Yn y lle cyntaf, ga i ddiolch i bob un ohonoch, fel rhieni, am eich cefnogaeth barhaus i'r ysgol yn ystod y tymor diwethaf a thu hwnt. Yn ystod y cyfnod heriol yma i bob un ohonom, rydym fel staff wedi gwerthfawrogi'r negeseuon o gefnogaeth a'r diolch rydym wedi eu derbyn gan ein rhieni.

Ar ddiwedd y tymor, hoffwn estyn diolch arbennig i ddisgyblion yr ysgol am eu hagwedd a'u hymroddiad gwych wrth wynebu heriau eleni - heriau nad yw disgyblion erioed wedi eu profi o'r blaen. Maent wedi bod yn barod iawn i addasu i ddulliau dysgu newydd, delio â chyfnodau i ffwrdd o'r ysgol a'u hathrawon a'u ffrindiau ac ymateb yn hynod o gadarnhaol i gyfres o reolau a threfniadau hanfodol i les a diogelwch pob un ohonom. Mae eu cyfraniad at fywyd yr ysgol yn cael ei werthfawrogi'n fawr gan eu bod yn ymdopi â hyn oll gyda chwrteisi, hiwmor a gwên!

Mae **adroddiad interim eich plentyn** neu adroddiad 'noson rieni' i flwyddyn 11 wedi ei e-bostio at gyfeirid e-bost eich plentyn. Mae rhieni disgyblion blwyddyn 7 hefyd wedi derbyn gwybodaeth am gyrhaeddiad eu plentyn yn dilyn y profion CATs yn gynt yn y tymor. Os ydych am drafod adroddiad eich plentyn, peidiwch ag oedi cyn cysylltu â ni.

Mae'r Gweinidog Addysg wedi cyhoeddi ychydig **mwy o fanylion am gymwysterau 2021 ar gyfer disgyblion blynyddoedd 10-13eg**. Gweler y llythyr yma yma at ddisgyblion am fanylion. Yn ogystal, mae yna wybodaeth ddefnyddiol ar wefan CBAC ar gyfer llinell amser asesiadau 2021 ac adnoddau Arweiniad i'r Arholiad. Mae'r disgyblion eisoes wedi derbyn y wybodaeth yma yn eu 'Timau' blwyddyn a byddwn yn gallu rhannu mwy pan gawn y wybodaeth ar ddechrau Ionawr.

Mae presenoldeb y disgyblion yn eu gwersi wedi bod yn dda iawn yn ystod yr wythnos hon a bydd nifer o weithgareddau hwylus ar eu cyfer ar fore Gwener, yn ogystal â'u gwersi. Rwyf am bwysleisio, **nid oes disgwyl i unrhyw ddisgybl i wneud unrhyw waith ysgol dros yr Ŵyl.** Ymlacio a mwynhau mewn modd diogel gyda'r bobl yn ein cartrefi neu ein swigod yn unig yw'r ffocws ar gyfer y gwyliau!

Edrychwn ymlaen at groesawu ein disgyblion i gyd yn ôl ar y 4ydd o Ionawr 2021 a byddaf yn cyfathrebu gyda chi yn y ffyrdd arferol os oes unrhyw drefniadau yn groes i hyn.

Ga i ddymuno Nadolig Llawen a diogel i chi a Blwyddyn Newydd yn llawn gobaith a llwyddiant!

Yn ddiffuant,

Simon Davies

Ysgol Gyfun Gymraeg Bryn Tawe
Heol Gwyrosydd, Penlan, Abertawe SA5 7BU
Ffôn 01792 560600
Ebost: SwyddfaBrynTawe5@hwbcymru.net
www.bryntawe.swansea.sch.uk
Pennaeth: Mr Simon Davies